



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLI349

**Amseru:** Rheolaidd

**Teitl:** Y cytundeb ar gyfer darparu'r Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Comisiynu

### Crynodeb Gweithredol:

Mae'r Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr yn ceisio mynd i'r afael â gwraidd troseddu a materion iechyd a chymunedol cysylltiedig. Mae'n gynllun amlasiantaeth sy'n ceisio mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol yn gynt o lawer yn ystod taith troseddu unigolyn. Bydd y datrysiad yn monitro ac yn adrodd ar ymddygiadau troseddol, yn ogystal â thueddiadau o ran materion iechyd a chymunedol.

Hysbysebwyd y cyfle tendr ar 'Gwerthwch i Gymru' drwy'r cyfnodolyn swyddogol gan fod gwerth y cytundeb dros y trothwy tendr. Gan hynny, roedd angen tendr y Gwasanaeth Canfod Tendr. Cyflwynwyd a derbyniwyd ymatebion tendr yn electronig a chawsant eu gwerthuso drwy gydymffurfio â deddfwriaeth gaffael.

Yn dilyn gwerthusiad tendr cydymffurfiol, daeth Gofal a Chymorth Pobl yn gyntaf ar ôl cwblhau'r gwerthusiad tendr, gan arddangos eu bod nhw'n cynnig y datrysiad â'r fantais fwyaf economaidd a mwyaf technolegol gydymffurfiol.

### Argymhelliad:

Cymeradwyodd CHTH yr argymhelliad bod y cytundeb ar gyfer y Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr yn cael ei roi i sefydliad Gofal a Chymorth Pobl am gyfnod o 3 blynedd gyda hyd at 2 gyfnod estyniad blyneddol. Y cyfanswm cost ar gyfer y ddarpariaeth dros y cyfnod tair blynedd gychwynnol yw £960,000. Cynhwysir cost y gwasanaeth o fewn cyllideb gomisiynu CHTH.

### Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:**



**Dyddiad: 28/10/2024**